**EOC-07-02(p5)**

**PWYLLGOR CYFLEOEDD CYFARTAL**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **14eg Tachwedd 2002** |
| **Amser:** | **9.30 y.b.** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Bwyllgorau 3 / 4** |
| **Teitl:** | **Gorsafoedd pleidleisio hygyrch – Adroddiad diweddaraf Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** |

## 1.0 Cyflwyniad

1.1. Mae Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) roi'r diweddaraf am y gwaith sydd wedi'i gyflawni ynglyn â gwneud gorsafoedd pleidleisio'n fwy hygyrch. Mae'r adroddiad yma'n amlinellu'r camau mae CLlLC wedi'u cymryd er mwyn codi ymwybyddiaeth a thrafod y mater gyda'r awdurdodau lleol. Mae'n cynnwys crynodeb o sefyllfa bresennol yr amryw awdurdodau a'r trafodaethau rydyn ni wedi'u cynnal gyda Chomisiwn Hawliau'r Anabl (DRC) ynglyn â'r modd gallwn ni roi cyngor a chymorth i'r awdurdodau mewn materion o'r fath tra byddan nhw'n paratoi ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2003. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi rhai o'r mentrau sydd dan ystyriaeth parthed mynd i'r afael â'r broblem yma, yn ogystal â materion eraill a fydd yn berthnasol i etholiadau llywodraeth leol yn 2004.

## 2.0 Cefndir

2.1 Mae gorsafoedd pleidleisio hygyrch yn ystyriaeth bwysig o ran cynnal etholiadau democrataidd a rhoi cyfle teg i bawb fwrw pleidlais. Mae'r DRC a *Scope*, ymysg eraill, wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw'n bosibl i'r anabl gyrchu pob gorsaf bleidleisio yn hawdd, gan fynnu bod rhaid i bob adeilad o'r fath fod yn hygyrch yn unol â gofynion Deddf 'Gwahaniaethu ar Sail Anabledd'. Mae'r DRC yn awyddus i ofalu bod yr awdurdodau lleol yn meithrin agwedd dringar tuag at yr anabl yn ogystal â chwalu'r rhwystrau ymarferol.

2. Trafodwyd gorsafoedd pleidleisio hygyrch yn y cyfarfod a gynhaliodd Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal ar 24ain Ebrill 2002. Ar ôl cyflwyniad y Comisiwn Etholiadol am ei swyddogaethau, ei amcanion a'i waith cyfredol parthed bwrw golwg ar weithdrefnau i ddibenion diweddaru'r drefn etholiadol, gofynnwyd i CLlLC nodi'r camau sydd ar waith i ychwanegu at nifer y rhai sy'n pleidleisio yng Nghymru. Dywedodd cadeirydd y pwyllgor y byddai'n ysgrifennu at Syr Harry Jones, Arweinydd CLlLC, a gofyn iddo drefnu adroddiad arall adeg yr hydref am y gwaith mae'r awdurdodau lleol yn ei gyflawni i

wneud gorsafoedd pleidleisio'n fwy hygyrch. Mae hyn o adroddiad wedi'i lunio yn ymateb i'r cais hwnnw.

## 3.0 Y diweddaraf a'r ystyriaethau perthnasol

3.1 Yn sgîl y trafodaethau yn ystod cyfarfod y pwyllgor fis Ebrill 2002, fe aeth Uned Cydraddoldebau CLlLC - carfan bwrpasol newydd - ati i nodi'r sefyllfa bresennol. Anfonodd gopïau o'r adroddiad *'Polls Apart 3'* i'r awdurdodau lleol a gofyn iddyn nhw roi gwybodaeth am y camau maen nhw'n eu cymryd i ofalu bod gorsafoedd pleidleisio'n fwy hygyrch. Gofynnodd iddyn nhw roi gwybodaeth fanylach hefyd am y modd maen nhw'n asesu cyfleusterau hygyrch a chadw llygad arnyn nhw, rhoi gwybodaeth am gyrchu gorsafoedd pleidleisio a phleidleisio trwy'r post, a chodi ymwybyddiaeth staff y gorsafoedd pleidleisio ynghylch anghenion yr anabl.

2. Hyd yma, mae 18 o'r 22 awdurdod wedi ymateb a rhoi gwybodaeth fanwl am eu gwaith yn y maes yma. Rydyn ni wedi cofnodi'r atebion a'u defnyddio i bennu'r camau nesaf ar gyfer hybu'r cynnydd a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau sydd heb eu datrys. Dyma rai o'r camau cadarnhaol mae awdurdodau wedi'u cymryd er mwyn cynnig cyfleusterau hygyrch:

- Asesiadau cynhwysfawr ynglyn â pha mor hygyrch yw gorsafoedd pleidleisio (gan ddefnyddio naill ai restr wirio *Scope* neu'u meini prawf eu hunain);
- Sefydlu gweithgor, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r cylchoedd cymorth lleol i'r anabl, er mwyn cadw golwg ar drefniadau pob etholiad;
- Hysbysebion am bleidleisio trwy'r post, yn ogystal â threfniadau eraill trwy gyfrwng y wasg;
- Cardiau pleidleiswyr sy'n rhoi gwybodaeth ynglyn â pha mor hygyrch yw gorsafoedd pleidleisio penodol;
- Rhoi gwybod i staff y gorsafoedd pleidleisio am anghenion yr anabl a sut mae eu cynorthwyo;
- Papurau pleidleisio ar ddiwyg gwahanol;
- Rhoi gwybod i berchennog pob adeilad sydd i'w ddefnyddio i ddibenion pleidleisio am anghenion yr anabl a sut mae eu cynorthwyo;
- Rhoi'r gorau i ddefnyddio adeiladau anaddas lle bo rhai amgen ar gael;
- Addasu adeiladau ar gyfer cyfnod yr etholiad.

3.3 Soniodd yr awdurdodau lleol, fodd bynnag, am nifer o anawsterau sydd i'w datrys eto er mwyn gofalu bod pob gorsaf bleidleisio yn un hygyrch. Dyma rai ohonyn nhw:

- Yn aml, lle nad yw'r orsaf yn addas, mae prinder cyfleusterau amgen yn y fro (yn arbennig yng nghefn gwlad) ac, os nad yw'r awdurdod yn berchen ar yr adeilad, does dim modd iddo fynnu i'r perchennog ei addasu;

- Dyw *'porta-cabins'* ddim yn ffordd ddelfrydol o ddatrys y broblem dros dro oherwydd gofynion Deddf 'Gwahaniaethu ar Sail Anabledd' a materion iechyd a diogelwch;
- Dim ond ar gyfer trefniadau dros dro mae modd defnyddio'r arian sydd ar gael ar hyn o bryd. Byddai cyfleusterau parhaol yn fwy cost-effeithiol ac efallai bydd trefniadau dros dro yn achosi problemau - e.e. o roi esgynfa ar yr ongl anghywir, fyddai dim modd ei defnyddio'n ddiogel.
- Dim ond hyn a hyn o wybodaeth am bleidleisio trwy'r post neu gyrchu'r gorsafoedd mae modd ei rhoi ar gardiau'r pleidleiswyr oherwydd maint y cerdyn a'r ffaith bod gofyn i bob gwybodaeth fod yn ddwyieithog;
- Ychydig iawn o arian (dim arian o gwbl, weithiau) sydd ar gael i'r awdurdod a pherchnogion eraill i ddibenion addasu'r adeiladau.

3.4 Rydyn ni wedi cynnal nifer o gyfarfodydd gyda'r DRC i drafod dulliau o wella'r cyfleusterau a rhoi gwybodaeth a chymorth i'r awdurdodau lleol. Yn rhan o'r paratoadau ar gyfer etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 2003, bydd CLlLC a'r DRC yn cysylltu â Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol er mwyn trafod y posibilrwydd o roi hyfforddiant i ddirprwy swyddogion yr etholiadau. Bydd yr hyfforddiant yn ymwneud â'r problemau mae pobl anabl yn eu hwynebu wrth ddefnyddio cyfleusterau a sut mae'u datrys dan amryw amgylchiadau. Bydd cyfle hefyd i ystyried problemau nad oes modd eu datrys yn hawdd. Yn ogystal â hynny, byddai'r cwrs yn annog y swyddogion i roi gwybod i'r pleidleiswyr mewn da bryd am ddulliau pleidleisio amgen - megis pleidleisio trwy'r post - lle nad oes gorsafoedd hygyrch ar gael ac yn hyrwyddo arferion safonol.

3.5 Rydyn ni'n cydnabod ei bod yn bwysig i staff y gorsafoedd pleidleisio fod yn effro i anghenion yr anabl ac amlygu agwedd dringar, er ein bod ni'n gwybod hefyd fod anawsterau ymarferol ynglyn â'u hyfforddi. Felly, mae CLlLC a'r DRC wedi cytuno i baratoi canllawiau ysgrifenedig ar gyfer gweithwyr o'r fath fel y gallan nhw nodi problemau a chynorthwyo pleidleiswyr lle bo angen. Bydd gofyn i swyddogion yr etholiadau ddosbarthu copïau o'r canllawiau ymhlith eu staff yn ystod y sesiynau cyfarwyddo, gan bwysleisio pwysigrwydd y cynnwys a natur ymarferol yr wybodaeth.

3.6 Mae CLlLC wedi cael ar ddeall hefyd fod Gweinidog y Cynulliad dros Lywodraeth Agored a Chadeirydd Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal wedi cyfarfod â mudiad *Scope* i drafod y posibilrwydd o gynnal arolwg (yn null *'Polls-Apart'*) o'r gorsafoedd pleidleisio sydd i'w defnyddio yn etholiad 2003 y Cynulliad. Byddai CLlLC yn cefnogi arolwg o'r fath oherwydd y byddai'r canlyniadau o gymorth wrth nodi anawsterau ynghylch cyrchu gorsafoedd pleidleisio ac yn rhoi rhagor o ddata perthnasol am y gwelliannau sydd eu hangen a'r materion allweddol y dylen ni fynd i'r afael â nhw cyn etholiadau 2004.

## 4.0 Casgliad a'r ffordd ymlaen

4.1 Mae'r cysyniad o orsafoedd pleidleisio mwy hygyrch yn rhan o'r ystyriaethau

ehangach ynglyn â chynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Dyma fater sy'n hollbwysig i fyd llywodraeth leol a'i raglen ddiweddaru, ac mae CLlLC wedi nodi 'cymryd rhan a democratiaeth' yn un o'i 5 thema strategol ar gyfer polisïau a phrosiectau dros y 2 flynedd nesaf. Ar ben hynny, rydyn ni eisoes wedi trefnu nifer o seminarau ar y cyd ag Adran Moderneiddio Llywodraeth Leol y Cynulliad ar gyfer annog pobl o garfanau sydd heb eu cynrychioli'n llawn i fod yn ymgeiswyr yn etholiadau'r awdurdodau lleol. Byddwn ni'n cyflawni rhagor o waith yn y maes yma cyn yr etholiadau hynny.

4.2 Mae'r adroddiad a gyhoeddodd Comisiwn Etholiadol Cymru yn ddiweddar, *'Improving Local Democracy in Wales'* yn cynnig nifer o argymhellion sy'n anelu at - ymhlith ystyriaethau eraill - hyrwyddo gorsafoedd pleidleisio hygyrch a mynd i'r afael â materion amrywioldeb er mwyn codi nifer y rhai sy'n cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Yn ei drafodaethau am adroddiad y comisiwn, fe roes Pwyllgor Cydlynu CLlLC sêl ei fendith ar nifer o argymhellion a fydd yn hwyluso cyfleusterau haws eu defnyddio. Bydd CLlLC hefyd yn cynnal trafodaethau manylach am yr argymhelliad i sefydlu nifer o gynlluniau arbrofol yn ystod etholiadau llywodraeth leol 2004 er mwyn ychwanegu at nifer y rhai sy'n cymryd rhan ynddyn nhw.

4.3 O edrych ar yr ymatebion a roes awdurdodau lleol Cymru, mae'n amlwg eu bod nhw o'r farn bod cyfleusterau hygyrch yn bwysig ac mae llawer ohonyn nhw wedi mynd ati i wella'r sefyllfa ac ystyried yr amryw ffyrdd o ddatrys y broblem. Dylen ni gydnabod, fodd bynnag, ei bod yn annhebygol y bydd pob gorsaf bleidleisio yn addas i'r anabl fwrw pleidlais yn bersonol yn etholiad y Cynulliad y flwyddyn nesaf. Lle na fydd modd gwneud hynny, bydden ni'n annog yr awdurdodau i gymryd camau i ofalu bod pobl anabl yn gallu pleidleisio trwy gyfrwng arall.

4. Mae CLlLC ac awdurdodau lleol Cymru yn gwybod pa mor bwysig yw gorsafoedd pleidleisio hygyrch ac wedi ymroi i hwyluso gwelliannau lle bo modd. Codwyd y mater yma yn un o gyfarfodydd diweddar y prif weithredwyr sy'n cynghori'r gymdeithas, lle dywedwyd bod angen rhagor o arian ac adnoddau er mwyn mynd â'r maen i'r mur. Fydd dim modd gwneud pob gorsaf bleidleisio yn gwbl hygyrch trwy'r rhaglen gyfalaf yn unig. Er ein bod ni'n cydnabod bod rhaid i bob un o'r adeiladau mae'r awdurdodau lleol yn eu defnyddio ar gyfer rhoi gwasanaethau i'r cyhoedd fod yn hygyrch erbyn mis Hydref 2004 yn ôl Deddf 'Gwahaniaethu ar Sail Anabledd', nid y ffordd ddelfrydol o gyrraedd y nod yw atebion dros dro mewn adeiladau nad ydyn nhw'n perthyn i'r awdurdod.
5. Bydd CLlLC yn parhau i gydweithio â'i phartneriaid ynglyn â chyfleusterau hygyrch, yn rhan o'r ymdrech i ychwanegu at nifer y rhai sy'n cymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, ac rydyn ni'n gofyn i aelodau'r pwyllgor:

i. nodi cynnwys yr adroddiad yma;
ii. ystyried unrhyw gamau gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu cymryd er mwyn cynorthwyo'r awdurdodau lleol (a'r rhai eraill sy'n cynnal gorsafoedd pleidleisio) i

ddarparu gorsafoedd pleidleisio hygyrch - gan gynnwys rhoi rhagor o arian i amryw ddibenion megis addasu adeiladau a hyfforddi staff.